

Cymuned Bach!

SUL Y BLODAU

Stori

Penblethau

Lliwio

Gweddion

Gemau

Crefft



Yr Orymdaith Fawr

"Gadewch i ni fynd i Jerwsalem!" meddai Iesu wrth ei ffrindiau.

"Mae gen i rywbeth pwysig i'w wneud yno."

Felly dyma nhw'n mynd. A phan oedden nhw'n medru gweld y ddinas o ben bryn cyfagos, meddai Iesu, "Gadewch i ni gael gorymdaith!"

Synnodd ffrindiau Iesu. "Gorymdaith?" meddylion nhw. "Pam gorymdaith?" Ond ni ddywedodd yr un ohonyn nhw air, oherwydd roedd Iesu wrthi'n rhoi gorchmynion.

"Rydw i am i ddau ohonoch chi fenthyca asyn," meddai.

"Dwedwch wrth y perchennog mod i ei angen. Fe fydd e'n deall."

Pan ddaeth y ddau ffrind yn ol gyda'r asyn, neidiodd Iesu ar ei gefn, rhoddodd broc bach tyner i'w ochrau, a dechreuodd farchogaeth i lawr y Rhiw. Dilynodd ei ffrindiau ef.

"Hwre i Iesu!" medden nhw. "Iesu yw'r Brenin!"

Aethon nhw i lawr ac i lawr tuag at borth y ddinas. Ac wrth iddyn nhw nesau ato ymunodd mwy a mwy o bobl a nhw.

"Iesu'r athro yw e!" bloeddiodd rhywun.

"Iesu'r iachawr yw e!" bloeddiodd rhywun arall.

"Tair hwre i Iesu!" meddai pawb.

Cyn bo hir roedd pobl ym mhobman, yn martsio gyda'r orymdaith ac yn gweiddi ar ochr yr heol.

Tynnodd rhai eu cotiau a'u rhoi o flaen yr asyn. Torrodd eraill ganghennau o'r coed palmwydd a'u chwifio o gwmpas. Roedd cannoedd yna miloedd efallai, yn curo dwylo, yn dawnsio ac yn gweiddi wrth fynd trwy borth y ddinas. Roedd pawb yn hapus!

Wel, pawb bron. Doedd rhai o'r arweinwyr crefyddol ddim yn hoffi Iesu.

Roedden nhw'n eiddigeddus, am fod y bobl gyffredin mor hoff ohono. A phan welson nhw'r orymdaith, dyma nhw'n gwgu.

"Arhoswch funud!" medden nhw. "Fedrwch chi ddim cael gorymdaith fan hyn. Dwed wrth dy ffrindiau am fod yn ddistaw, Iesu"

Ond chwerthin wnaeth Iesu. "Dweud wrthyn nhw am fod yn ddistaw? Amhosib! Wedyn fe drodd i edrych ar y dorf.

"Fedrwch chi ddim gweld?" meddai. "Mae cymaint o lawenydd yma, hyd yn oed taswn i'n medru tawelu'r bobl, byddai cerrig y stryd yn neidio ac yn bloeddio mewn llawenydd!"

Awdur: Bob Hartman & Krisztina Kallai Nagy
Wedi eu cymerud o Beibl Newydd Y Storiwr
Addasiad Cymraeg gan Cynthia Davies



Defnyddiwch y "Bible chat mat" yma i helpu chi a eich teulu i drafod y stori (Dim ond ar gael yn Saesneg).



Cerddoriaeth



Can Saesneg: "We
Sing Hosanna" gan
David Heath-White



Gweddi Creadigol

Haleliwia Heliwm

Bydd Angen: Balwn heliwm a Pen Sharpie (neu debyg)

Cyfarwyddiadau

Wnaeth Iesu teithio i mewn i Jerwsalem ar Asyn gyda pawb yn gweiddi Haleliwia.


Mae'n bwysig ein bod yn cofio rhoi clod i Dduw.

Defnyddiwch pen i ysgrifennu gweddi bach ar y balwn/ neu tynnu llun i ddweud diolch i Dduw am bopeth mae'n ei wneud drosom ni.

Gwthiwch y balwn tuag at y llawr (tu fewn i'r ty, rhywle lle mae'r to yn uchel, falle ar bwys y grisiau) yna dywedwch Amen a gadewch i'r balwn fynd, gwylwch y balwn yn hedfan i fynnu.

Nodyn i rhieni: Plis peidiwch a gadael i'ch plant gollwng y balwns tu allan. Diolch

Drysfa Sul y Blodau



Creftiau

Creu Cangen Palmwydd

Bydd Angen

Papur
Paint/ Pensil Iiw Gwyrdd
Sisiwrn
Ffon lolipop
Glud

Cyfarwyddiadau

1. Creu sawl amlinelliad o'ch llaw a'i torri allan
2. Yna Lliwiwch yn wyrdd
3. Gludwch y dwylo i'r ffon lolipop yn gorgyffwrdd i greu siap cangen palmwydd.

Troelliwr

Bydd Angen

Darn o carden Iiw
Pensil
Edau

Cyfarwyddiadau

1. Ar un ochr y carden tynnwch llun delien palmwydd ar yr ochr arall ysgrifennwch Hosana!
2. Rhowch 2 twll bach yn y carden - un ar bob ochr y carden
3. doddi 2 edau trwy'r tyllau - yn ym nhob twll a'i clymu
4. trolliwch yn eich dwylo a dylai'r gair hosana edrych fel e'i fod yng nghanol y deilen.



Gemau

Dwi'n Ffan

Bydd angen:

Eich gangen palmwydd o'r tudalen crefft

Hula-hoop/ neu rhywbeth i greu cylch ar y llawr

2 balwn

Cyfarwyddiadau:

Pan wnaeth Iesu mynd i mewn i Jerwsalem, wnaeth t bobl chwifio canghennau palmwydd i'w groesawu. Yn y sialens yma rhaid i chi chwifio eich cangen palmwydd i arwain y ddau balwn i newn i canol y cylch. Mae gennych chi 60 eiliad i'w cyflawni.

Amserydd



